



Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar gyfer Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018

Pennod 1 o Ran 3 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Templed Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Teitl / Darn o waith:	Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020
Adran:	Y Gangen Ymddygiadau Risg (Tybaco, Alcohol a Gamblo), Is-adran Iechyd y Cyhoedd, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad:	19 Awst 2020

Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Bydd Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 yn disodli Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007¹ a ddaeth i rym 2 Ebrill 2007 a'u diwygio yn 2015² i gynnwys ysmegu mewn cerbydau preifat yn cludo pobl o dan 18 oed.

Fe wnaeth Rheoliadau 2007 weithleoedd caeedig a rhai sylweddol gaeedig a manau cyhoeddus yn ddi-fwg a rhoi pwerau i awdurdodau cenedlaethol i wneud eithriadau cyfyngedig i'r gofynion di-fwg a darparu ar gyfer cerbydau di-fwg a manau di-fwg. Nid yw Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 yn newid y gofynion hyn.

Beth fydd yn newid o ran plant?

Mannau awyr agored

Mae Rheoliadau 2020 yn ymestyn y gwaharddiad ar ysmegu i fannau awyr agored:

- tiroedd ysgol i gyd;
- tiroedd ysbytai i gyd (h.y. Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ("GIG") a rhai annibynnol);
- pob maes chwarae plant awdurdodau lleol a chynghorau cymuned nad ydynt yn gaeedig;
- manau awyr agored lleoliadau gofal plant cofrestredig.

Ceir eithriadau er mwyn i unigolion sy'n rheoli tiroedd ysbytai a thiroedd ysgolion sydd ag adeiladau preswyl ar gyfer disgyblion, ddynodi manau ysmegu yn y tiroedd yn amodol ar fodloni amodau arbennig o ran maint a lleoliad y man ysmegu.

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007
<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2007/787/contents/made/welsh>

² Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1363/contents/made/welsh>

Gwestai ac ati.

Ar hyn o bryd mae Rheoliadau 2007 yn caniatáu i reolwyr gwestai, tai llety, tafarnau, hosteli a chlybiau aelodau ("gwestai, ac ati.") ddynodi ystafelloedd gwely lle caniateir ysmegu. Mae Rheoliadau 2020 yn darparu eithriad am amser cyfyngedig ar gyfer y mangreoedd hyn a fyddai'n dod i ben 12 mis ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym.

Lleoliadau gweithle

Mae Rheoliadau 2007 yn darparu bod lleoliadau sy'n weithleoedd dim ond yn ddi-fwg yn y rhannau hynny a ddefnyddir ar gyfer gwaith yn unig ac y dylai'r rhannau hynny fod yn ddi-fwg bob amser. Mae Rheoliadau 2020 yn newid y ddarpariaeth hon fel bod mangreoedd sy'n weithleoedd dim ond yn ddi-fwg yn y rhannau a ddefnyddir fel gweithle a dim ond am y cyfnod y cânt eu defnyddio. Byddai gwarchodwyr plant cofrestredig yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau.

Amcanion

Amcanion y Rheoliadau mewn cysylltiad â phlant fydd:

- dad-normaleiddio ymddygiadau ysmegu ymhellach ar gyfer plant a phobl ifanc; ac
- eu gwarchod rhag y niweidiau a gysylltir â dod i gysylltiad â mwg ail-law.

Gall pobl ifanc ddatblygu dibyniaeth ar nicotin yn gyflym ac efallai y byddant yn methu lleihau'r peryglon oherwydd eu dibyniaeth³. Mae'r risg o gael clefyd a gysylltir ag ysmegu yn fwy ymhlith y rhai sy'n dechrau ysmegu yn ifanc⁴.

Nod y Rheoliadau yw:

- dad-normaleiddio ysmegu a'i wneud yn ymddygiad annerbyniol i rai o dan 18 oed
- amddiffyn y rhai o dan 18 oed rhag y niweidiau iechyd a gysylltir â dechrau ysmegu a dod i gysylltiad â mwg ail-law
- annog camau gan ysmegwyr i amddiffyn y rhai o dan 18 oed rhag dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn ardaloedd eraill
- cyfrannu at leihau cyflyrau iechyd plant a achosir gan ysmegu a dod i gysylltiad â mwg ail-law, a
- chefnogi cleifion ysbytai, staff ac ymwelwyr wrth iddynt geisio rhoi'r gorau i ysmegu.

³ Di Franza J et al (2007). Symptoms of tobacco dependence after brief intermittent use: the development and assessment of nicotine dependence in youth, Archives of Pediatrics and Adolescent Medicine 162 (7): 704-710

⁴ Royal College of Physicians (1992). Smoking and the Young. London: Royal College of Physicians

Y rhai a fydd yn cael y budd gorau o'r newid hwn yn y gyfraith fydd plant a phobl ifanc o dan 18 oed.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu cyflwyno yn 2020.

Mae'r wybodaeth gefndir ar gael ym Memorandwm Esboniadol Bil Iechyd y Cyhoedd. <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=16155>

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Yn 2014 yng Nghymru, ymhlith disgyblion blwyddyn ysgol 11 (h.y. oedran 15-16), roedd 7% o fechgyn a 9% o ferched yn ysmygwyr rheolaidd (wythnosol).⁵ Mae'r risg o gael clefyd a gysylltir ag ysmegu yn fwy ymhlith y rhai sy'n dechrau ysmegu yn ifanc.

Effeithiau cadarnhaol

Bydd plant a phobl ifanc o dan 18 oed yn cael eu hamddiffyn rhag gweld ysmegu fel ymddygiad cyhoeddus derbyniol a normal a gallai hyn helpu i'w hatal nhw rhag dechrau ysmegu yn y lle cyntaf.

Effeithiau negyddol

Ni fydd gweithredu'r cynigion hyn yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc.

Llwyddiant

Byddai cyfyngu ar ysmegu ar diroedd ysgolion, tiroedd ysbytai, meysydd chwarae cyhoeddus a mannau awyr agored lleoliadau gwarchod plant cofrestredig ac mewn ystafelloedd gwely gwestai ac ati yn cynnig llai o gyfleoedd i ysmegu gael ei weld fel ymddygiad derbyniol a normal.

Mae Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 a oedd yn cyfyngu ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus caeedig/sylweddol gaeedig a gweithleoedd wedi dangos effeithiolrwydd polisiau di-fwg wrth ddad-normaleiddio ymddygiadau ysmegu er bod y cyfyngiadau mewn mannau caeedig a sylweddol gaeedig yn unig.

Gall arbrofi ac yna ysmegu ddechrau mor gynnar â blynyddoedd ysgol gynradd, neu fe all ddigwydd yn hwyrach ym mywyd unigolyn ifanc. Dechreuodd dau o bob tri ysmegu cyn eu bod yn 18 oed, a dechreuodd bron 40% ysmegu'n rheolaidd cyn eu bod yn 16⁶. Mae'n glir bod pobl ifanc yn gallu dod yn ddibynnol ar nicotin yn gyflym ac efallai'n methu lleihau'r risg o ddibyniaeth oherwydd caethiwed. Mae un astudiaeth wedi dangos bod ysmegu un sigarét yn unig yn ffactor risg o ran plant yn dod yn ysmygwyr rheolaidd hyd at dair blynedd

⁵ Llywodraeth Cymru (2015). [2013/14 Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol Cymru: canfyddiadau allweddol](#) Rhif Ymchwil Gymdeithasol 58/2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

⁶ Office for National Statistics. General Lifestyle Survey Overview: A report on the 2011 General Lifestyle Survey. 2013. <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/ghs/general-lifestyle-survey/2011/rpt-chapter-1.html>

yn ddiweddarach⁷. Hefyd, mae dechrau ysmegu'n gynnar yn gysylltiedig ag ysmegu trwm yn ddiweddarach, lefelau uwch o ddibyniaeth, llai o siawns o roi'r gorau iddi, a mwy o farwolaethau⁸. Mae ymyriadau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n dechrau ysmegu yn hanfodol felly i gyflawni'r nod cyffredinol o leihau'r nifer sy'n ysmegu.

Canfuwyd bod nicotin yn niweidiol i ymennydd sy'n datblygu⁹. Mae nicotin hefyd yn gaethiwus; mae'r ieuenctid mwyaf agored i ddylanwadau yn colli ymreolaeth dros dybaco o fewn dyddiau i anadlu mwg sigarét gyffredin am y tro cyntaf¹⁰. Mae'r glasoed hefyd yn debygol o fod yn fwy sensitif i briodweddau gwobrwyo nicotin o'u cymharu ag oedolion¹¹. Gall dibyniaeth gael effaith niweidiol ar iechyd a pherthynas¹².

Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi erthyglau canlynol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP):

- Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.
- Erthygl 36 – Dylai plant gael eu diogelu rhag gweithgareddau a allai beryglu eu datblygiad.

Annog plant i beidio â dechrau ysmegu yw un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yng Nghymru, mae arolygon wedi dangos bod ysmegu ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau wedi cynyddu'n raddol yn ystod y 1980au a'r 1990au cynnar. Erbyn 1996, nodir bod 29% o ferched a 22% o fechgyn 15 oed yn ysmegu'n wythnosol. Mae'n galonogol i ddeall bod y ffigurau hyn nawr wedi gostwng i 9% o ferched a 7% o fechgyn.¹³

Mae llawer o blant yn arbrofi gyda ysmegu, gan gredu y byddant yn gallu rhoi'r gorau iddi pan fyddant eisiau gwneud hynny. Fodd bynnag, mae ysmegu yn gaethiwus iawn ac mae llawer yn ei chael hi'n amhosibl rhoi gorau i'r arfer.

Mae'r cynnig hwn yn bwriadu gwarchod iechyd plant a phobl ifanc a dyma'r prif fater y mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn canolbwyntio arno.

⁷ Fidler, JA et al. (2006) Vulnerability to smoking after trying a single can lie dormant for three years or more. Tobacco Control

⁸ Royal College of Physicians (2010) Passive smoking and children. London: Royal College of Physicians.

⁹ <http://www.surgeongeneral.gov/library/reports/50-years-of-progress/50-years-of-progress-by-section.html>

¹⁰ Di Franza J et al (2007). Symptoms of tobacco dependence after brief intermittent use: the development and assessment of nicotine dependence in youth, Archives of Paediatrics and Adolescent Medicine 162 (7): 704-710

¹¹ The dynamic effects of nicotine on the developing brain. Dwyer, J.B., McQuown, S.C., & Leslie, F.M. (2009) Pharmacology & Therapeutics, 122, 125-139.

¹² <http://www.nhs.uk/Livewell/addiction/Pages/addictionwhatisit.aspx>

¹³ Llywodraeth Cymru (2015). 2013/14 Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol Cymru: canfyddiadau allweddol Rhif Ymchwil GYMDEITHASOL 58/2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith hwn yn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau o fewn erthyglau CCUHP.

Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidogion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd rhwng 2 Ebrill a 24 Mehefin 2014. Roedd yn cynnwys dogfen hawdd i blant a phobl ifanc ei deall a oedd yn ceisio sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed a bod eu barn yn cael ei hystyried yn y cynigion a gynhwyswyd ym Mhapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion hyn, a'r ymatebion i'r Papur Gwyn yn gyffredinol (gan gynnwys y rhai gan Gomisiynydd Plant Cymru a sefydliadau cynrychioliadol eraill) ym mis Tachwedd 2014.

Yn ystod y gwaith craffu ar y Bil gan y pedwerydd Cynulliad, cafodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd gyngor ar argymhellion Pwyllgorau'r Cynulliad ac unrhyw faterion a godwyd ac fe wnaeth benderfyniadau mewn cysylltiad â nhw. Ceir rhagor o fanylion am y gwaith craffu ar y Bil ar wefan Senedd Cymru:

<https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12763&AIID=22862>

Yn wreiddiol cyflwynwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd er gwybodaeth ac er mwyn cael ei sylwadau. Yn dilyn ei adolygiad ar gyfer ailgyflwyno'r Bil, cafodd ei gyflwyno i'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd ar gyfer ei hystyriaeth a'i chymeradwyaeth.

Cynghorwyd y ddau Weinidog fod Pennod 2, Rhan 1 y Bil yn cefnogi erthyglau CCUHP sef Erthyglau 3, 6, a 36 a amlinellwyd uchod.

Cam 5. Cofnodi a chyfathrebu'r canlyniad

Y fersiwn derfynol i'w chadw ar iShare

Cyhoeddwyd fersiwn o'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyhoedd ac er mwyn bod o gymorth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei waith yn craffu ar y Bil.

Mae hon yn ddogfen fyw ac fe'i diweddarwyd adeg datblygu'r polisi a'r Bil. Mae'r fersiwn hon yn adlewyrchu'r Rheoliadau arfaethedig a ddrafftwyd yn sgil y Bil yn dod yn Ddeddf.

Cam 6. Ailystyried y darn o waith yn ôl yr angen

Fel y crybwyllwyd yn Adran 5 uchod, mae hon yn ddogfen fyw ac fe'i diweddarwyd ers i Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 gael ei gweithredu.

Cyllidebau

O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), a fu unrhyw effaith ar gyllidebau?

Mae'n bwysig pan wneir newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys pan wneir dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi ei asesu a'i dystiolaethu fel rhan o broses yr asesiad o'r effaith ar hawliau plant

Rhowch fanylion:

Darperir manylion am effaith ariannol y cynigion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau.

Monitro ac Adolygu

A oes angen i ni fonitro / adolygu'r cynnig?	Oes
Os yw'n berthnasol: pennwch ddyddiad yr adolygiad	19/08/25